

# Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality

Meini Prawf Cyllid: Sefydliadau Cymunedol a Gwirfoddol



Mae Cronfa Cenedlaethau'r Dyfodol Cymdeithas Adeiladu'r Principality yn gronfa ledled Cymru a sefydlwyd mewn partneriaeth â Chymdeithas Adeiladu'r Principality gyda'r nod o gael effaith gadarnhaol ar gymdeithas a bywydau plant a phobl ifanc ledled Cymru.

Bydd y gronfa yn dyfarnu grantiau o hyd at £12,500 am flwyddyn i sefydliadau'r trydydd sector a chymunedol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Mae cyllid ar gael tuag at gostau craidd sy'n gwella cyfleoedd, lles a gwytnwch i blant a phobl ifanc ledled Cymru.

Mae'r gronfa hon yn benodol ar gyfer sefydliadau y mae eu gwaith yn canolbwyntio'n unig ar gefnogi plant a phobl ifanc. Ni fydd sefydliadau sy'n darparu gwaith cymunedol ehangach ar gyfer pob oedran yn gymwys oni bai bod y sefydliad yn canolbwyntio'n glir ac yn unig ar gefnogi cymunedau o gefndiroedd nodweddiadol gwarchoddedig o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, megis rhyw, anabledd, ethnigrwydd, rhywioldeb neu ffydd, yn berthnasol.

Fodd bynnag, rhaid i geisiadau fod yn benodol ar gyfer gwaith sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn unig.

Dylai sefydliadau a gefnogir drwy'r gronfa hon gyfrannu tuag at un neu fwy o'r canlynol:

- Cynyddu mynediad at fwyd iach ac eitemau hanfodol eraill gan gynnwys dillad, deunydd ysgrifennu a thechnoleg
- Cefnogi iechyd meddwl a lles cadarnhaol
- Helpu plant a phobl ifanc i adeiladu gwytnwch ariannol a sgiliau bywyd fel cyllidebu a chynilo
- Cefnogi cyflogadwyedd, hyfforddiant a datblygu sgiliau
- Annog ymwybyddiaeth amgylcheddol, cynaliadwyedd a chadwraeth
- Cyflwyno gweithdai a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r themâu uchod
- Cefnogi ymyriadau sy'n helpu disgyblion a myfyrwyr i ymgysylltu'n gadarnhaol â bywyd ysgol a chyfleoedd yn y dyfodol

Byddwn yn blaenoriaethu sefydliadau a phrosiectau sy'n cynyddu hygyrchedd a chyfleoedd i blant a phobl ifanc sydd heb eu gwasanaethu, sy'n agored i niwed neu'n profi anfantais, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd nodweddiadol gwarchoddedig a'r rhai sy'n byw yn y cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

## Grantiau ar gael

Bydd grantiau o hyd at £12,500 y flwyddyn am flwyddyn yn cael eu dyfarnu i sefydliadau'r trydydd sector y mae eu gwaith craidd yn canolbwyntio ar gefnogi pobl ifanc o dan 25 oed.

## Pwy all wneud cais?

Er mwyn bod yn gymwys, rhaid i sefydliadau:

- Bod yn sefydliad trydydd sector neu gymunedol sy'n gweithredu yng Nghymru neu'r gororau (yn agos at gangen PBS). Rhaid iddynt ganolbwyntio'n unig ar gefnogi plant a phobl ifanc, neu fod yn sefydliad sy'n canolbwyntio ar nodweddion gwarchoddedig sy'n gwneud cais am waith sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn unig
- Cael incwm blynyddol o dan £500,000 yn eich cyfrifon ariannol diwethaf
- Bod yn gwneud cais am gostau craidd sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc yn unig
- Dangos canlyniadau ac effaith glir ar blant a phobl ifanc
- Dangos sut y bydd y cyllid yn darparu parhad ystyrlon o gefnogaeth
- Heb dderbyn cyllid o'r rhaglen hon yn yr un o'r ddwy rownd ariannu ddiwethaf

Rydym yn disgwyl cefnogi tua 15 o sefydliadau drwy'r rhaglen hon. Gellir rhoi blaenoriaeth i sefydliadau sydd â hanes cryf o gyflawni ac effaith gymunedol. Ardal ddaearyddol a ariennir: Cymru a changhennau o'r Principality ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. os ydych chi'n sefydliad sydd wedi'i leoli yng Nghaer, Croesoswallt, Henffordd neu'r Amwythig, archebwch alwad gyda Swyddog Grantiau, fel y gallwn benderfynu a yw eich lleoliad yn gymwys i gael cyllid.

Rhaid i chi fod yn un o'r canlynol:

- Grwpiau Cyfansoddedig
- Elusennau Cofrestredig a Sefydliadau Corfforedig Elusennol
- Cwmnïau Cyfyngedig trwy Warant
- Cwmnïau Buddiannau Cymunedol
- Mentrau Cymdeithasol

## Sut i wneud cais?

Rhaid i ymgeiswyr lenwi ffurflen gais ar-lein y gellir ei chyrchu trwy ein gwefan.

Sylwer:

- Drwy gydol mis Ionawr 2027 mae ymrwymiad i weithio gyda Chymdeithas Adeiladu'r Principality a Sefydliad Cymunedol Cymru i gynhyrchu marchnata a chyfathrebu i ddathlu'r Sefydliadau/Grwpiau a ddyfarnwyd.
- Ni fydd grantiau'n cael eu dyfarnu'n ôl-weithredol h.y. ar gyfer costau a dynnwyd cyn derbyn ein llythyr cynnig grant, ac mae'r telerau ac amodau wedi'u llofnodi wedi'u dychwelyd.
- Nid yw grantiau ar gael i gefnogi codi arian ar gyfer grwpiau ac elusennau eraill.
- Rhaid gwario'r grant o fewn 12 mis i'r dyddiad dyfarnu.
- Rhaid i'r cais ddangos angen clir am gymorth ariannol, caledi ariannol neu anghenion cymorth ychwanegol.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n gofyn i sefydliadau yng Nghymru ystyried effeithiau tymor hir eu penderfyniadau, i weithio'n well gyda phobl a cymunedau a gyda'i gilydd a rhwystro problemau parhaus rhag codi, megis tlodi, anghydraddoldebau iechyd a newid hinsawdd.

Rydym yn awyddus i annog sefydliadau i feddwl nid yn unig am y gymuned ble maen nhw'n byw ac yn gweithio ynddi, ond hefyd sut mae'u gwaith yn gydnaws â ac yn cyd-fynd â gwasanaethau a gweithgareddau grwpiau a sefydliadau eraill, rhai gwirfoddol a rhai statudol.

Fe hoffen ni i chi ystyried sut y gallai'ch sefydliad weithio gydag eraill er mwyn ychwanegu gwerth a gweithio mewn partneriaeth yn hytrach na chystadlu. Cofiwch egluro yn eich cais eich cynlluniau ar gyfer y dyfodol yn ogystal ag ar gyfer y presennol. Fe hoffen ni weld sut mae grwpiau'n gweld effeithiau tymor hir eu penderfyniadau er mwyn gallu gweithio gyda, ar y cyd, ag eraill.

